Rhan B – Hawl i gofrestru

Cynnwys

1 Cyflwyniad

2 Hawl i bleidleisio

3 Dyddiad perthnasol

4 Cyfeiriad cymhwyso
- Preswylio
- Rhywun sy'n gweithio oddi cartref
- Myfyrwyr
- Rhywun ar wyliau
- Gwesteion
- Ail gartrefi
- Morwyr masnachol
- Teithwyr
- Cychod culion a chartrefi symudol eraill

5 Anallu cyfreithiol i bleidleisio
- Pobl a gedwir yn y ddalfa nad ydynt yn bwrw dedfryd
- Pobl ag anableddau dysgu neu gyflyrau iechyd meddwl

6 Cenedligrwydd
- Darpariaethau cyffredinol
- Dinasyddion deuol
- Dinasyddion Prydeinig
- Dinasyddion y Gymanwlad
- Dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd

7 Aelodau o Dŷ'r Arglwyddi
- Adnabod Aelodau o Dŷ'r Arglwyddi
- Cofrestru

8 Oedran
- Atendriadau
- Gwasanaeth rheithgor a phobl dros 70 oed

1 Cyflwyniad

1.1 Mae'r hawl i gofrestru i bleidleisio yn amodol ar fodloni meini prawf penodol o ran oedran, cenedligrwydd a chartref a pheidio â bod ag anallu cyfreithiol i gofrestru. Mae'r etholfraint yn nodi pwy sydd â hawl i bleidleisio mewn etholiadau penodol, y gellir eu diffinio fel y rhai sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer cofrestru ac sydd wedi cwblhau'r broses gofrestru.

1.2 Mae gan rywun hawl i gael ei gofrestru fel etholwr Senedd y DU ym Mhrydain Fawr os yw'r canlynol yn berthnasol:[1]

- mae'n preswylio yn yr etholaeth (yn amodol ar eithriadau penodol, a eglurir isod)
- nid yw'n gysylltiedig ag unrhyw anallu cyfreithiol i bleidleisio (heblaw am oedran)
- mae'n ddinesydd cymwys yn y Gymanwlad neu'n ddinesydd yng Ngweriniaeth Iwerddon
- bydd yn cyrraedd oedran pleidleisio cyn diwedd y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau ar 1 Rhagfyr nesaf yn dilyn y dyddiad perthnasol

1.3 Bydd gan rywun hawl i gael ei gofrestru fel etholwr llywodraeth leol ym Mhrydain Fawr os yw'r canlynol yn berthnasol:[2]

- mae'n preswylio yn yr ardal llywodraeth leol (yn amodol ar eithriadau penodol, a eglurir isod)
- nid yw'n gysylltiedig ag unrhyw anallu cyfreithiol i bleidleisio (heblaw am oedran)
- mae'n ddinesydd cymwys yn y Gymanwlad, yn ddinesydd yng Ngweriniaeth Iwerddon, neu'n ddinesydd yn un o aelod-wladwriaethau eraill yr Undeb Ewropeaidd
- bydd yn cyrraedd oedran pleidleisio cyn diwedd y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau ar 1 Rhagfyr nesaf yn dilyn y dyddiad perthnasol

1.4 Mae'r etholfraint ar gyfer etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd yr Alban yr un peth â'r etholfraint ar gyfer etholiadau llywodraeth leol. Dylid darllen pob cyfeiriad at etholfraint neu gofrestrau llywodraeth leol yn y llawlyfr hwn felly fel cyfeiriad at etholfraint a chofrestrau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd yr Alban fel y bo'n briodol.

[1] Adran 4(1), (4), (5) a (6), DCyB 1983.
[2] Adran 4(3), (4), (5) a (6), DCyB 1983.

2 Hawl i bleidleisio

2.1 Mae'n ofynnol i Swyddogion Cofrestru Etholiadol gadw cofrestr o etholwyr Seneddol a chofrestr o etholwyr llywodraeth leol.[3] Yn ogystal, mae'n ofynnol iddynt gadw cofrestr o'r dinasyddion hynny yn aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd sydd â hawl i bleidleisio yn etholiadau Senedd Ewrop yn y DU[4] a'r cymheiriaid hynny sy'n byw y tu allan i'r DU sydd wedi gwneud datganiad i bleidleisio yn etholiadau Senedd Ewrop.[5]

2.2 Rhaid cyfuno'r cofrestrau hyn cyhyd ag y bo'n ymarferol.[6] O ystyried bod y fasnachfraint ar gyfer pob un o'r cofrestrau hyn ychydig yn wahanol, bydd angen ystyried sut y bydd y cyfuniad hwn yn gweithio'n ymarferol.

2.3 Rhaid i'r gofrestr lawn gynnwys enwau'r bobl sy'n ymddangos i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn gymwys i gofrestru yn etholiadau Senedd y DU a/neu lywodraeth leol, eu cyfeiriad cymhwyso a'u rhif etholwr.[7]

Rhaid rhoi rhai etholwyr categori arbennig ar y gofrestr heb eu cyfeiriad cymhwyso neu heb eu henw a'u cyfeiriad cymhwyso. Ceir rhagor o wybodaeth am y cyfryw etholwyr yn Rhan Dd, 'Etholwyr categori arbennig'.

2.4 Rhaid i enwau etholwyr sydd â hawl gyfyngedig i bleidleisio gael eu rhagddodi ar y gofrestr gan lythrennau penodol.[8] Mae'r rhagddodiadau hyn fel a ganlyn:

E yn dangos bod yr etholwr yn etholwr tramor sydd hefyd yn arglwydd ac sydd ond â hawl i bleidleisio yn etholiadau Senedd Ewrop.

F yn dangos bod yr etholwr yn etholwr tramor sydd ond â hawl i bleidleisio yn etholiadau'r DU a Senedd Ewrop.

G yn dangos bod yr etholwr yn ddinesydd yn un o aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd sydd ond â hawl i bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol.

K yn dangos bod yr etholwr yn ddinesydd yn un o aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd sydd ond â hawl i bleidleisio yn etholiadau Senedd Ewrop ac etholiadau llywodraeth leol.

L yn dangos bod yr etholwr yn arglwydd sydd â hawl i bleidleisio yn etholiadau Senedd Ewrop ac etholiadau llywodraeth leol.

---

[3] Adran 9, DCyB 1983.
[4] Rheoliad 5(2), Rheoliadau (Etholfraint) Ewrop 2001.
[5] Adran 3(7), DCyB 1985.
[6] Adran 9(5), DCyB 1983; Adran 3(7), DCyB 1985; Rheoliad 5(3), Rheoliadau (Etholfraint) Ewrop 2001.
[7] Adran 9(2), DCyB 1983.
[8] Rheoliad 42, RhCyB 2001.

Darperir marc ychwanegol (**U**) yn yr Alban i nodi dinasyddion yn aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd sydd wedi nodi'n benodol eu bod am gofrestru ar gyfer etholiadau Senedd Ewrop ond nid ar gyfer etholiadau llywodraeth leol.[9] Mae'r Comisiwn Etholiadol yn argymell y dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol annog y cyfryw etholwyr i gofrestru fel etholwyr llywodraeth leol hefyd, er y byddai angen defnyddio'r marc U lle mae'r etholwr yn mynnu ei fod am gael ei gofrestru fel etholwr Senedd Ewrop yn unig.

2.5 Nid oes hawl gan rywun bleidleisio oni chaiff ei enw ei gynnwys ar y gofrestr etholwyr i'w defnyddio ar gyfer etholiad, hyd yn oed os byddai'n gymwys i bleidleisio fel arall.[10]

2.6 Mae gan unrhyw un sydd wedi'i gofrestru fel etholwr Seneddol hawl i bleidleisio yn etholiadau Senedd y DU[11] ac etholiadau Senedd Ewrop.[12] Mae'r etholfraint ar gyfer etholiadau Senedd Ewrop, fodd bynnag, yn ehangach na'r etholfraint ar gyfer etholiadau Senedd y DU, ac mae hawl gan arglwyddi bleidleisio yn etholiadau Senedd Ewrop ond nid yn etholiadau Senedd y DU, a gall dinasyddion yn aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd (ar wahân i'r rhai sydd hefyd yn ddinasyddion yn y Gymanwlad a Gweriniaeth Iwerddon) sydd wedi dewis cofrestru yn etholiadau Senedd Ewrop bleidleisio yn etholiadau Senedd Ewrop ond nid yn etholiadau Senedd y DU.[13]

2.7 Mae gan unrhyw un sydd wedi'i gofrestru fel etholwr llywodraeth leol hawl i bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol,[14] etholiadau Senedd yr Alban os ydynt wedi cofrestru yn yr Alban,[15] etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru os ydynt wedi cofrestru yng Nghymru[16] ac etholiadau Awdurdod Llundain Fwyaf os ydynt wedi cofrestru yn Llundain Fwyaf.[17]

2.8 Bydd yr hawl i bleidleisio mewn unrhyw refferendwm o dan DPGER wedi'i nodi yn y ddeddfwriaeth alluogi ar gyfer y refferendwm.

2.9 Er ei bod yn bosibl i rai pobl gael eu cofrestru mewn mwy nag un cyfeiriad, nid oes hawl gan etholwyr bleidleisio fwy nag unwaith yn yr un etholiad:

- Dim ond unwaith y gall etholwr bleidleisio mewn unrhyw etholaeth yn etholiad Senedd y DU, ac yn achos etholiad cyffredinol Senedd y DU, dim ond mewn un etholaeth y gall bleidleisio.[18]

[9] Rheoliad 42(4), RhCyB (yr Alban) 2001.
[10] Adrannau 1 a 2, DCyB 1983. Yr unig eithriad i hyn fyddai lle mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol wedi hepgor enw o'r gofrestr o ganlyniad i wall clercol, ac mewn achos o'r fath gellir ychwanegu'r unigolyn hwnnw i'r gofrestr hyd at 9pm ar y diwrnod pleidleisio a gellir rhoi caniatâd iddo bleidleisio yn dilyn hynny.
[11] Adran 1, DCyB 1983.
[12] Adran 8(2), Deddf ESE 2002.
[13] Adran 8, Deddf ESE 2002.
[14] Adran 2, DCyB 1983.
[15] Adran 11, Deddf yr Alban 1998.
[16] Adran 12, DLlC.
[17] Adran 36(2A), DCyB 1983.
[18] Adran 1(2), DCyB 1983.

- Dim ond unwaith y gall etholwr bleidleisio yn etholiad Senedd Ewrop.[19]
- Yn etholiadau Senedd yr Alban, Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac Awdurdod Llundain Fwyaf, dim ond un gyfres o bapurau pleidleisio y mae hawl gan etholwr ei bwrw fel y nodir yn y ddeddfwriaeth.[20]
- Mewn etholiadau llywodraeth leol, ni all etholwr fwrw mwy nag un papur pleidleisio yn yr un ward, neu fwrw papur pleidleisio mewn mwy nag un ward yn yr un awdurdod lleol.[21]

2.10 Fodd bynnag, gall etholwr sy'n bodloni'r amodau preswylio ac amodau cofrestru eraill, bleidleisio mewn etholiadau i ddau awdurdod lleol gwahanol gan fod y rhain yn ddau gorff ar wahân o gynrychiolwyr etholedig.

2.11 Yn ychwanegol, gall etholwr bleidleisio mwy nag unwaith mewn etholiad lle y mae wedi'i benodi fel dirprwy i bleidleisio ar ran etholwr arall, ac felly gall fwrw ei bleidlais ei hun a phleidlais yr etholwr y'i penodwyd fel dirprwy ar ei gyfer. Gall rhywun bleidleisio fel dirprwy ar gyfer hyd at ddau unigolyn nad ydynt yn berthynas agos mewn un etholiad. Perthynas agos yn yr achos hwn yw gŵr neu wraig, partner sifil, rhiant, mam-gu neu dad-cu, brawd, chwaer, plentyn neu wŷr neu wyres. Nid oes terfyn ar nifer y perthnasau agos y gall rhywun weithredu fel dirprwy ar eu rhan. Nid yw'n drosedd gweithredu fel dirprwy ar gyfer mwy na dau unigolyn nad ydynt yn berthnasau agos: dim ond lle y bydd yr unigolyn hwnnw'n parhau i bleidleisio fel dirprwy ar gyfer mwy na dau unigolyn nad ydynt yn berthnasau agor yn yr un etholiad y cyflawnir trosedd.

Ceir rhagor o wybodaeth am bleidleisio drwy ddirprwy yn Rhan E, 'Pleidleisio absennol'.

[19] Rheoliad 3(2), Rheoliadau (Etholfraint) Ewrop 2001; Adran 9, Deddf ESE 2002.
[20] Adran 11(2), Deddf yr Alban 1998; Adran 12(2), DLlC; Adran 4(1), Deddf Awdurdod Llundain Fwyaf 1999.
[21] Adran 2(2), DCyB 1983.

3 Dyddiad perthnasol

3.1 Gwneir penderfyniadau ar geisiadau i gofrestru yn seiliedig ar b'un a yw ymgeisydd yn bodloni'r gofynion ar gyfer cofrestru a ph'un a yw'n anghymwys i gofrestru ar y dyddiad y tybir y gwneir y cais. Gelwir y dyddiad hwn yn ddyddiad perthnasol. Bydd y dyddiad perthnasol yn amrywio yn dibynnu ar y ffordd y gwneir y cais.

3.2 Caiff ceisiadau a wneir drwy ymateb i'r canfasio blynyddol eu gwneud drwy gyfeirio at y dyddiad perthnasol sef 15 Hydref.[22] Dyma'r achos waeth pryd y cwblhawyd y ffurflen: gall deiliaid cartrefi ddychwelyd ffurflenni canfasio wedi'u cwblhau cyn 15 Hydref lle y byddant yn disgwyl bod y bobl hynny sydd wedi'u rhestru ar y ffurflen yn preswylio yn y cyfeiriad ar y dyddiad hwnnw.

3.3 Os cynhelir etholiad yn ystod y cyfnod canfasio, fodd bynnag, ni fydd 15 Hydref yn cael ei drin fel y dyddiad y gwnaed y cais.

3.4 Wrth gyhoeddi'r hysbysiad etholiad fel bo etholiad yn cael ei gynnal yn ystod y cyfnod o 1 Gorffennaf i 1 Rhagfyr, fe fydd unrhyw gais ar ffurflen ganfasio sydd eisoes wedi cael ei dychwelyd i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol erbyn hynny, yn cael ei drin fel y'i gwnaed ar y dyddiad y cyhoeddwyd yr hysbysiad etholiad.

3.5 Mae gan unrhyw ffurflen ganfasio a ddychwelwyd rhwng yr hysbysiad etholiad a'r unfed diwrnod ar ddeg cyn dyddiad yr etholiad, ddyddiad perthnasol o'r diwrnod y'i derbynnir gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol. Ar ôl i'r ceisiadau hyn gael eu prosesu'n llwyddiannus, gallan nhw gael eu defnyddio wedyn, i ychwanegu enwau i'r hysbysiad o addasiad y cyhoeddir ar y pumed diwrnod cyn yr etholiad.

3.6 Nid yw'n bosib defnyddio unrhyw ffurflen ganfasio a ddychwelwyd ar neu ar ôl y degfed diwrnod cyn dyddiad yr etholiad i ychwanegu enwau i'r gofrestr fydd yn cael ei defnyddio yn yr etholiad hwnnw, ac felly, dylid eu prosesu'n seiliedig ar y dyddiad perthnasol o 15 Hydref, a'u hychwanegu i'r gofrestr ddiwygiedig ar ôl i'r canfasio ddod i ben.

Ceir rhagor o wybodaeth am y canfasiad blynyddol yn Rhan C, 'Y canfasiad blynyddol'.

3.7 O ran ceisiadau neu ddatganiadau cofrestru treigl gan etholwyr categori arbennig a dderbynnir ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn, yn cynnwys yn ystod y cyfnod canfasio blynyddol, y dyddiad perthnasol yw'r dyddiad y gwnaed y cais neu'r datganiad, h.y. y dyddiad a nodwyd yn y cais neu'r datganiad.[23]

Ceir rhagor o wybodaeth am y broses cofrestru treigl ac am etholwyr categori arbennig yn Rhan Ch, 'Addasiadau misol i'r gofrestr' a Rhan Dd, 'Etholwyr categori arbennig'.

[22] Adran 10(2), DCyB 1983.
[23] Adran 4(6), DCyB 1983.

4 Cyfeiriad cymhwyso

4.1 At ddibenion cofrestru etholiadol, caiff y cyfeiriad cymhwyso ei ddiffinio fel y cyfeiriad y mae hawl gan rywun gael ei gofrestru ar ei gyfer.[24] Rhaid i'r gofrestr gynnwys cyfeiriadau cymhwyso'r bobl hynny sydd wedi'u cofrestru arni, yn amodol ar eithriadau penodol, yn cynnwys etholwyr tramor a dienw, a drafodir yn Rhan Dd, 'Etholwyr categori arbennig'.

Preswylio

4.2 Mae preswylio yn yr etholaeth neu'r ardal etholiadol yn ganolog i'r hawl i gofrestru i bleidleisio yno.

4.3 Rhaid bod rhywun yn preswylio yn y cyfeiriad y mae'n ceisio cael ei gofrestru ar ei gyfer ar y dyddiad perthnasol.[25] Nid yw preswylio yno, fodd bynnag, yn gofyn am ddaliadaeth wirioneddol ac felly nid oes rhaid bod yr ymgeisydd yn bresennol yn gorfforol yn y cyfeiriad ar y dyddiad perthnasol.

Mae gan gategorïau penodol o etholwyr, yn cynnwys pleidleiswyr gwasanaeth, etholwyr dienw ac etholwyr tramor, ddarpariaethau arbennig sy'n caniatáu iddynt gofrestru er nad ydynt yn bodloni'r gofyniad preswylio. Ar ôl cyflwyno'r datganiad perthnasol ynghyd â'u cais i gofrestru i bleidleisio, tybir bod y cyfryw etholwyr yn bodloni'r gofyniad preswylio. Ceir rhagor o wybodaeth am y mathau hyn o etholwr a'r broses y gallant ei defnyddio i gofrestru yn Rhan Dd, 'Etholwyr categori arbennig'.

4.4 Wrth wneud penderfyniad ar y gofynion preswylio, rhaid i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ystyried amgylchiadau'r ymgeisydd, yn cynnwys at ba ddiben y mae'n bresennol mewn cyfeiriad penodol a/neu'r rhesymau dros ei absenoldeb.

4.5 Bydd rhywun yn preswylio mewn cyfeiriad os mai dyna yw ei gyfeiriad cartref parhaol.

Yn achos *Hipperson v. Newbury* (1985)[26] daeth y llys i'r casgliad nad oedd meddiannu tir neu annedd yn anghyfreithlon yn anghymhwyso rhywun rhag cofrestru yno os cadarnheir mai dyma yw ei gartref parhaol. O ganlyniad, rhaid diystyried unrhyw fater sy'n ymwneud â thenantiaeth, perchenogaeth neu ddeiliadaeth gyfreithiol o'r eiddo gan yr ymgeisydd wrth benderfynu a fodlonwyd y gofyniad preswylio ai peidio.

4.6 Os yw etholwr mewn llety dros dro ac nad oes ganddo unrhyw gartref yn rhywle arall gellir, yn dibynnu ar yr amgylchiadau, ystyried ei fod yn preswylio

[24] Adran 9(8), DCyB 1983.
[25] Adran 4, DCyB 1983.
[26] *Hipperson and others v. Electoral Registration Officer for the District of Newbury and another* (1985) 2 All ER (CA).

yn y cyfeiriad hwnnw .[27] Fodd bynnag, os oes gan yr unigolyn gartref parhaol yn rhywle arall, gellir ystyried nad yw'n preswylio yn y cyfeiriad dros dro.

Rhywun sy'n gweithio oddi cartref

4.7 Os nad yw ymgeisydd yn bresennol yn ei gyfeiriad ar y dyddiad perthnasol, dylid ystyried yr amgylchiadau dros hyn wrth benderfynu ar ei gais. Er enghraifft, os nad yw'r ymgeisydd yn bresennol yn y cyfeiriad ar y dyddiad perthnasol o ganlyniad i unrhyw swydd, wasanaeth neu gyflogaeth, ni fydd hyn yn effeithio ar y cymhwyster preswylio ar yr amod:[28]

- ei fod yn bwriadu symud yn ôl i'r cyfeiriad o fewn chwe mis i'r adeg y symudodd oddi yno, ac na fydd y rheswm dros ei absenoldeb yn ei atal rhag gwneud hynny, neu
- bod yr eiddo yn gartref parhaol i'r ymgeisydd yn unig neu'r ymgeisydd ac eraill ac mai'r unig reswm nad yw'r ymgeisydd yn byw yn yr eiddo ar hyn o bryd yw o ganlyniad i'r ddyletswydd mae'n ymgymryd â hi

4.8 O ganlyniad, gellir tybio bod rhywun sydd i ffwrdd o gyfeiriad o ganlyniad i'r math o swydd a wna neu oherwydd bod angen iddo gyflawni dyletswydd i ffwrdd o'i gyfeiriad yn preswylio yno o hyd at ddibenion cofrestru. Cyhyd â bod rhywun yn bwriadu dychwelyd i gyfeiriad fel ei brif gartref yn barhaol o fewn chwe mis, neu fod yr eiddo yn parhau i fod yn gartref parhaol iddo, boed ar ei ben ei hun neu gydag eraill, bydd hawl gan yr unigolyn hwnnw i gael ei gofrestru neu barhau i gael ei gofrestru yn y cyfeiriad hwnnw.

Myfyrwyr

4.9 Gellir ystyried bod unrhyw fyfyriwr sydd i ffwrdd o gyfeiriad am ei fod ar gwrs a ddarperir gan sefydliad addysgol yn cyflawni swydd, gwasanaeth neu gyflogaeth ac felly gellir penderfynu ar ei statws preswylio ar yr un sail â phobl sy'n gweithio oddi cartref fel y disgrifir uchod.[29]

4.10 Mae myfyrwyr yn aml yn byw mewn dau gyfeiriad gwahanol, un yn ystod y tymor ac un yn ystod y gwyliau. Efallai y bydd hawl gan fyfyrwyr gofrestru yn y ddau gyfeiriad lle yr ystyrir bod ganddynt gartref yn y ddau le.

Rhoddir ystyriaeth fanylach i'r rhai sydd â mwy nag un cyfeiriad o dan 'Ail gartrefi' isod.

Rhywun ar wyliau

4.11 Nid yw mynd i ffwrdd ar wyliau yn effeithio ar gymhwyster preswylio unigolyn at ddibenion cofrestru etholiadol cyhyd â bod yr unigolyn hwnnw yn bwriadu dychwelyd i'w gartref parhaol ar ôl bod i ffwrdd.

[27] Adran 5(2), DCyB 1983.
[28] Adran 5(3), DCyB 1983.
[29] Adran 5(5), DCyB 1983.

Gwesteion

4.12 Ni fydd gwestai sy'n aros mewn eiddo yn preswylio yn yr eiddo hwnnw os oes ganddo gartref parhaol yn rhywle arall: yn yr achos hwn, bydd y gwestai yn preswylio yn ei gartref parhaol ei hun. Fodd bynnag, yn dibynnu ar yr amgylchiadau, gellir ystyried bod gwestai nad oes ganddo gartref yn rhywle arall yn preswylio yno at ddibenion etholiadol a gellir ei gynnwys ar y gofrestr etholiadol mewn perthynas â'r cyfeiriad hwnnw.[30]

Ail gartrefi

4.13 Mae'n bosibl cofrestru i bleidleisio mewn ail gartref, yn dibynnu ar amodau penodol. Roedd dau achos cyfreithiol o Loegr, *Fox v. Stirk* a *Ricketts v. Cambridge*,[31] yn canolbwyntio'n bennaf ar gofrestru myfyrwyr ond gellir eu cymhwyso hefyd i'r rhai ag ail gartref. Mae'r achosion hyn yn nodi'r tair egwyddor ganlynol:

- Gall rhywun fod â dau gartref.
- Nid yw presenoldeb dros dro mewn cyfeiriad yn golygu bod rhywun yn preswylio yno.
- Nid yw absenoldeb dros dro yn amddifadu rhywun o'i gartref.

4.14 Gan ddefnyddio'r tair egwyddor hyn, os bydd rhywun yn preswylio mewn dau gartref, yn dibynnu ar y rheswm y mae'n preswylio yn y naill a'r llall, mae'n bosibl y bydd yn gymwys i gofrestru i bleidleisio mewn perthynas â'r ddau. Ym mhob achos, byddai angen bod yr unigolyn yn gallu dangos ei fod yn preswylio yn y cyfeiriad, yn unol â'r amodau preswylio a ddiffinnir yn Adran 5 o DCyB 1983 ac fel y nodir uchod.

4.15 Ym marn y Comisiwn, mae'n annhebygol y byddai bod yn berchen ar ail eiddo yr ymwelir ag ef at ddibenion hamdden yn unig yn bodloni'r cymhwyster preswylio. Nid yw bod yn berchen ar eiddo a thalu'r dreth gyngor arno yn ddigon i fodloni'r cymhwyster preswylio: er y gallai hyn rhoi arwydd o gysylltiad â chyfeiriad, nid yw'n brawf preswylio. Rhaid gwneud pob penderfyniad fesul achos.

4.16 Gan fod achosion *Fox v. Stirk* a *Ricketts v. Cambridge* wedi'u cynnal mewn llysoedd yn Lloegr, nid ydynt yn uniongyrchol gymwys yn yr Alban, er y gellir eu hystyried yn ddarbwyllol gan lys yn yr Alban.

4.17 Fodd bynnag, mae dau achos cymwys o dan gyfraith yr Alban, er nad ydynt yn uniongyrchol gymwys yn Lloegr, y gellir eu hystyried yn ddarbwyllol gan lys yn Lloegr. Yn *Scott v. Phillips*,[32] lle y gwrthodwyd apêl i gael cofrestru mewn ail gartref, roedd y penderfyniad yn gwahaniaethu rhwng cartref parhaol a chartref a oedd yn atodol i'r cartref parhaol. Rhoddwyd ystyriaeth, yn gyffredinol, i ble y cynhaliwyd 'prif fusnes bywyd'. Fodd bynnag, pwysleisiodd y llys apêl cofrestru bod angen ystyried pob achos yn ôl ei rinweddau ei hun.

[30] Adran 5(2), DCyB 1983.
[31] *Fox v. Stirk* a *Ricketts v. Registration Officer for the City of Cambridge* [1970] 3 All ER 7.
[32] *Scott v. Phillips* 1974 SLT 32.

4.18 Yn achos *Dumble v. Electoral Registration Officer for Borders*[33] nodwyd bod rhywun a oedd â dau eiddo mewn dwy ardal gofrestru wahanol a oedd yn angenrheidiol ar gyfer dwy yrfa ar wahân yr unigolyn hwnnw yn y gyfraith a gwleidyddiaeth â hawl i gael ei gofrestru yn y ddau gyfeiriad oherwydd ystyriwyd bod y ddau yn gartrefi parhaol.

4.19 Dylid nodi bod yr holl benderfyniadau llys a nodir uchod yn seiliedig ar y ddeddfwriaeth a oedd ar waith ar y pryd a fe'u gwnaed cyn cyflwyno'r broses cofrestru treigl hefyd. Gallai gymryd achos profi newydd i archwilio'r ddeddfwriaeth bresennol yn llawn.

4.20 Wrth ystyried cofrestru etholwyr o ran ail gyfeiriad rhaid i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ystyried yr amgylchiadau sy'n ymwneud â'r cofrestru ac i ba ddiben y mae'r etholwr yn bresennol yn y cyfeiriad, a dylid ystyried pob achos yn ôl ei rinweddau ei hun.

Morwyr masnachol

4.21 Mae hawl gan forwyr masnachol nad ydynt yn preswylio yn y DU ond y byddent yn preswylio yno heblaw am natur eu cyflogaeth gael eu hystyried fel eu bod yn preswylio naill ai mewn cyfeiriad lle y byddent yn preswylio fel arfer oni bai am eu galwedigaeth, neu mewn hostel neu glwb sy'n darparu llety i forwyr masnachol a lle y byddent fel arfer yn aros yn ystod cyfnod eu galwedigaeth.[34]

Teithwyr

4.22 Yn ôl eu natur, ni fydd gan aelodau o gymunedau teithiol fel arfer gyfeiriad lle y gellir ystyried eu bod yn preswylio, er y gallai rhai ymgartrefu am gyfnod ar safleoedd sydd wedi'u dynodi gan yr awdurdod lleol.

4.23 Dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol ystyried presenoldeb unrhyw bobl sy'n teithio yn eu hardal a phenderfynu ar y dull gorau o weithredu yn lleol.

4.24 Bydd swyddogion eraill y cyngor yn gyfrifol am gynnal a chadw unrhyw safleoedd ar gyfer pobl sy'n teithio a hefyd am sicrhau y darperir addysg briodol i blant teithwyr. Efallai y gall y cyfryw swyddogion gynorthwyo Swyddogion Cofrestru Etholiadol i asesu sefyllfa teithwyr yn yr ardal leol a helpu i hwyluso'r broses o gofrestru unrhyw deithwyr sydd â hawl i gael eu cofrestru.

Cychod culion a chartrefi symudol eraill

4.25 Gellir ystyried bod unrhyw un sy'n byw ar gwch, cwch preswyl neu gartref tebyg sydd ag angorfa barhaol ym Mhrydain Fawr yn preswylio yn y cyfeiriad hwnnw. Dylai pobl sy'n byw'n barhaol yn y cyfryw gartrefi gael eu

[33] *Dumble v. Electoral Registration Officer for Borders* 1980 SLT (Sh Ct) 60.
[34] Adran 6, DCyB 1983.

cofrestru fel etholwyr cyffredin. Hefyd, dylid canfasio'r cyfryw gyfeiriadau yn ystod y cyfnod canfasio blynyddol.

4.26 Pan fydd rhywun yn byw ar gwch neu gartref tebyg arall nad yw'n sefydlog mewn man penodol, ni ellir ystyried bod yr unigolyn hwnnw yn preswylio mewn unrhyw gyfeiriad penodol. Fodd bynnag, gall unigolyn o'r fath gofrestru drwy ddatganiad o gysylltiad lleol.[35]

Mae Rhan Dd 'Etholwyr categori arbennig' yn disgrifio'r broses ar gyfer datganiadau o gysylltiad lleol.

[35] Adran 7B, DCyB 1983.

5 Anallu cyfreithiol i bleidleisio

5.1 Os bydd rhywun yn destun anallu cyfreithiol i bleidleisio, ni ellir cynnwys ei enw ar y gofrestr etholwyr.[36] Bydd pobl yn destun anallu cyfreithiol i bleidleisio os byddant wedi'u hanghymhwyso rhag pleidleisio o dan y gyfraith. Mae hyn yn cynnwys unigolyn o fewn un o'r categorïau canlynol:

- **Aelodau o Dŷ'r Arglwyddi:** Mae aelodau o Dŷ'r Arglwyddi wedi'u hanghymhwyso rhag pleidleisio yn etholiadau Senedd y DU ac felly nid oes hawl gan y cyfryw bobl gael eu cofrestru yng nghofrestr etholwyr y Senedd. Fodd bynnag, maent yn gymwys i gael eu cofrestru yng nghofrestr etholwyr llywodraeth leol am nad ydynt wedi'u hanghymhwyso rhag pleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol yn rhinwedd y ffaith eu bod yn Aelodau o Dŷ'r Arglwyddi. Ystyrir y categori hwn ymhellach yn Adran 7, 'Aelodau o Dŷ'r Arglwyddi', isod.
- **Carcharorion wedi'u collfarnu a dan gadwad:** [37] Ni fydd rhywun sydd wedi'i ddyfarnu'n euog o drosedd (heb gynnwys dirmygu'r llys) ac a gaiff ei gadw yn y carchar (heblaw am gadw rhywun o ganlyniad i achos o beidio â chydymffurfio â dedfryd nad yw'n ddedfryd o garchar) yn gallu pleidleisio'n gyfreithiol ac felly nid yw'n gymwys i gael ei gynnwys ar y gofrestr etholwyr.[38] Mae'r anghymhwysiad hwn yn berthnasol p'un a yw'r unigolyn yn y carchar neu'n rhydd yn anghyfreithlon, a ph'un a oedd wedi'i gynnwys yn briodol ar y gofrestr cyn cael ei gollfarnu.
- **Troseddwyr a gedwir mewn ysbyty meddwl:** Ni fydd rhywun sydd wedi'i gadw o dan orchymyn neu gyfarwyddyd a wnaed o dan y darpariaethau a restrir yn Adran 3A o DCyB 1983 neu sy'n rhydd yn anghyfreithlon lle y byddai dan gadwad fel arall yn gallu pleidleisio'n gyfreithlon ac felly ni ellir ei gynnwys ar y gofrestr etholwyr.
- **Pobl y'u dyfarnwyd yn euog o arferion llwgr neu anghyfreithlon penodol:** Ni fydd unigolyn y'i dyfernir yn euog o arferion llwgr penodol[39] yn gallu cael ei gofrestru i bleidleisio yn gyfreithlon am bum mlynedd o ddyddiad y gollfarn.[40] Ni all unigolyn y'i dyfernir yn euog o arferion anghyfreithlon penodol[41] gael ei gofrestru i bleidleisio yn gyfreithlon am dair blynedd o ddyddiad y gollfarn.[42] Byddai apêl lwyddiannus yn erbyn y cyfryw gollfarn yn cael gwared ar yr anallu cyfreithiol.

Pobl a gedwir yn y ddalfa nad ydynt yn bwrw dedfryd

5.2 Fel rheol gyffredinol ni ellir ystyried bod rhywun sydd wedi'i gadw yn unrhyw le o dan gadwraeth gyfreithiol yn preswylio yn y man hwnnw at

[36] Adran 4, DCyB 1983.
[37] Yn 2005, penderfynodd Llys Hawliau Dynol Ewrop nad oedd y broses o ddifreinio carcharorion yn y DU yn unol â'r Ddeddf Hawliau Dynol. Er bod Llywodraeth y DU wedi ymgynghori ar y mater hwn, ar adeg llunio'r adroddiad hwn ni fu unrhyw newid i'r gyfraith mewn perthynas â hyn.
[38] Adran 3, DCyB 1983.
[39] Hynny yw, troseddau o dan Adrannau 60 a 62A, DCyB 1983.
[40] Adran 173(1), (2) a (3), DCyB 1983.
[41] Hynny yw, troseddau o dan Adran 61, DCyB 1983.
[42] Adran 173(1), (2) a (3), DCyB 1983.

ddibenion cofrestru fel etholwr cyffredin.[43] Mae hyn yn destun llawer o eithriadau, yn cynnwys ar gyfer cleifion mewn ysbytai meddwl nad ydynt yn droseddwyr dan gadwad neu ar remand.[44] Trafodir y broses o gofrestru'r cyfryw bobl ymhellach isod. Yn ogystal, efallai y bydd rhywun sy'n aros am dreial neu ddedfryd (ar remand) yn preswylio yn y man y'i cedwir os bydd hyd y cyfnod cadwraeth yn debygol o fod yn ddigon hir iddo gael ei ystyried fel pe bai'n preswylio yno.[45] Os na, ac os nad oes hawl ganddo gael ei gofrestru yn unrhyw le arall fel ei gyfeiriad cartref, gall gofrestru drwy gyfrwng datganiad o gysylltiad lleol.[46]

Mae Rhan Dd 'Etholwyr categori arbennig' yn disgrifio'r broses ar gyfer datganiadau o gysylltiad lleol.

Pobl ag anableddau dysgu neu gyflyrau iechyd meddwl

5.3 Nid yw diffyg galluedd meddyliol yn anallu cyfreithiol i bleidleisio:[47] mae pobl sy'n bodloni'r cymwysterau cofrestru eraill yn gymwys i gofrestru waeth beth yw eu galluedd meddyliol neu eu diffyg galluedd meddyliol. Dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol felly sicrhau bod pobl ag anableddau dysgu neu gyflyrau iechyd meddwl yn cael eu cynnwys ar y gofrestr etholwyr.

Anhawster dysgu

5.4 Dylai pobl ag anawsterau dysgu gael gwybodaeth neu fathau eraill o gymorth, ar gais, i'w cynorthwyo â'u cais i gofrestru neu i'w galluogi i gael rhagor o wybodaeth am y system etholiadol.

Cyflyrau iechyd meddwl

5.5 Nid yw cyflwr iechyd meddwl, ynddo'i hun, yn anallu cyfreithiol i bleidleisio ac felly nid yw'n rhwystr i gofrestru. Dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol, ar gais, gynorthwyo'r rhai sy'n gwneud cais neu sydd am gael rhagor o wybodaeth am y system etholiadol.

Mae Rhan Ff, 'Hygyrchedd a chyfranogiad' yn rhoi rhagor o wybodaeth am ffyrdd posibl o helpu etholwyr gyda'r broses gofrestru ac mae'n ystyried dulliau posibl o ddarparu'r wybodaeth a'r cymorth angenrheidiol.

Cleifion gwirfoddol

5.6 Claf mewn ysbyty meddwl na chaiff ei gadw yno yw claf gwirfoddol (fe'i gelwir yn 'glaf anffurfiol' hefyd). Os bydd hyd ei arhosiad yn yr ysbyty yn

[43] Adran 5(6), DCyB 1983.
[44] Adran 7, DCyB 1983.
[45] Adran 7A(2), DCyB 1983.
[46] Adran 7B, DCyB 1983.
[47] Diddymodd Adran 73 o DGE unrhyw reolau cyfraith gwlad ynglŷn ag anallu rhywun i bleidleisio oherwydd ei gyflwr meddwl.

ddigon hir, neu'n debygol o fod yn ddigon hir, efallai yr ystyrir ei fod yn preswylio yn yr ysbyty at ddibenion ei hawl i gofrestru.[48] Gall y cyfryw gleifion gofrestru hefyd os ydynt yn preswylio yn rhywle ar wahân i'r ysbyty. Efallai y bydd claf nad yw'n gymwys yn rhinwedd preswylio mewn unrhyw le arall ar wahân i'r ysbyty yn dewis cofrestru drwy gyfrwng datganiad o gysylltiad lleol mewn perthynas â'r cyfeiriad lle y byddai'n byw pe na bai'n glaf neu gyfeiriad lle yr oedd yn arfer byw cyn iddo ddod yn glaf.

Cleifion a gedwir mewn ysbytai meddwl

5.7 Ar gyfer rhywun sydd wedi'i gadw fel claf mewn ysbyty meddwl neu sefydliad sy'n derbyn ac yn trin cleifion sydd â gofid meddwl, bydd ei fan preswylio yn dibynnu ar yr amgylchiadau ac ar hyd ei arhosiad yn yr ysbyty. Fodd bynnag, mae hawl ganddo gofrestru, oni bai ei fod yn droseddwr dan gadwad.

5.8 Os bydd hyd ei arhosiad yn yr ysbyty yn ddigon hir, neu'n debygol o fod yn ddigon hir, efallai yr ystyrir ei fod yn preswylio yn yr ysbyty at ddibenion ei hawl i gofrestru.[49] Gall y cyfryw gleifion gofrestru hefyd os ydynt yn preswylio yn rhywle ar wahân i'r ysbyty. Efallai y bydd claf nad yw'n gymwys yn rhinwedd preswylio mewn unrhyw le arall ar wahân i'r ysbyty yn dewis cofrestru drwy gyfrwng datganiad o gysylltiad lleol mewn perthynas â'r cyfeiriad lle y byddai'n byw pe na bai'n glaf neu gyfeiriad lle yr oedd yn arfer byw cyn iddo ddod yn glaf.

Hosteli a chartrefi

5.9 Dylid trin hosteli a chartrefi o natur breswyl, at ddibenion etholiadol, yn yr un ffordd ag unrhyw gyfeiriadau cymwys eraill.

Hawliau pleidleisio

5.10 Er y gall etholwyr ag unrhyw lefel neu ddim lefel o alluedd meddyliol gofrestru i bleidleisio, yr etholwr ei hun ddylai benderfynu a yw am bleidleisio a sut i bleidleisio mewn etholiad, ac ni ddylai unrhyw un arall wneud y penderfyniad hwn ar ei ran. Ni all y rhai sy'n gofalu am yr unigolyn neu sydd fel arall yn gwneud penderfyniadau ar ei ran wneud penderfyniadau ar bleidleisio. Ym marn y Comisiwn, dylai fod gan yr unigolyn alluedd meddyliol i benodi neu i barhau i gael dirprwy, oherwydd gall hynny gael ei ystyried fel penderfyniad ar bleidleisio.

Atwrneiaeth

5.11 Gall pobl eraill wneud penderfyniadau ar faterion ariannol a materion penodol eraill drwy gyfrwng atwrneiaeth arhosol neu atwrneiaeth barhaus. Nid oes gan unrhyw atwrneiaeth unrhyw bŵer mewn cysylltiad â hawliau

[48] Adran 7(2), DCyB 1983.
[49] Adran 7(2), DCyB 1983.

pleidleisio.[50] Rhaid gwrthod unrhyw gais neu ddatganiad sy'n gofyn am lofnod gan yr ymgeisydd ond sydd wedi'i lofnodi gan rywun ag atwrneiaeth.

Ni ddylai Swyddog Cofrestru Etholiadol wneud y canlynol:

- llofnodi cais i gofrestru, unrhyw ddatganiad neu gais am bleidlais absennol ar ran rhywun arall
- derbyn cais am bleidlais absennol sydd wedi'i lofnodi gan rywun ar ran yr ymgeisydd

[50] Adran 29, Deddf Galluedd Meddyliol 2005.

6 Cenedligrwydd

Darpariaethau cyffredinol

6.1 Bydd cenedligrwydd unigolyn yn penderfynu pa etholiadau yn y DU, os o gwbl, y bydd hawl ganddo gofrestru i bleidleisio ar eu cyfer.

6.2 Os na fydd ymgeisydd yn siŵr ynghylch unrhyw agwedd ar ei genedligrwydd, dylid ei gynghori i gysylltu â'r Swyddfa Gartref. Mae manylion ar gael yn www.homeoffice.gov.uk.

Etholiadau Senedd y DU

6.3 Mae pob un o ddinasyddion Prydain, Gweriniaeth Iwerddon a dinasyddion cymwys yn y Gymanwlad[51] yn bodloni'r gofyniad cenedligrwydd i bleidleisio yn etholiadau Senedd y DU, ac felly gellir ei gynnwys yng nghofrestr etholwyr y Senedd ar yr amod bod yr holl feini prawf cofrestru eraill wedi'u bodloni hefyd.

Etholiadau Senedd Ewrop

6.4 Mae'r rhai sy'n bodloni'r gofyniad cenedligrwydd i bleidleisio yn etholiadau Senedd y DU hefyd yn bodloni'r cymhwyster cenedlaethol ar gyfer etholiadau Senedd Ewrop. Yn ogystal, mae gan ddinasyddion yn yr aelod-wladwriaethau hynny o'r UE nad ydynt hefyd o Brydain, Gweriniaeth Iwerddon na'r Gymanwlad hawl i gofrestru ac i bleidleisio yn etholiadau Senedd Ewrop cyhyd â bod y meini prawf cofrestru eraill wedi'u bodloni a'u bod yn cyflwyno'r cais a'r datganiad angenrheidiol i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol, fel y disgrifir isod.[52]

Etholiadau llywodraeth leol

6.5 Mae pob un o ddinasyddion Prydain, yr Undeb Ewropeaidd a dinasyddion cymwys yn y Gymanwlad yn bodloni'r gofyniad cenedligrwydd i bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol, ac felly gellir ei gynnwys yn y gofrestr etholwyr llywodraeth leol ar yr amod bod yr holl feini prawf cofrestru eraill wedi'u bodloni hefyd. Defnyddir etholfraint etholiadau llywodraeth leol hefyd ar gyfer etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Senedd yr Alban ac Awdurdod Llundain Fwyaf.

Rolau a phwerau'r Swyddog Cofrestru Etholiadol

6.6 Os nad yw Swyddog Cofrestru Etholiadol yn fodlon ar genedligrwydd unrhyw ymgeisydd neu etholwr, mae ganddo'r pŵer i'w gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd neu'r etholwr ddarparu tystiolaeth ddogfennol benodedig yn cadarnhau ei genedligrwydd.[53] Mae ganddo'r pŵer hefyd i'w gwneud yn

[51] Mae Adran 4(6) o DCyB 1983 yn diffinio 'dinesydd cymwys yn y Gymanwlad'.
[52] Rheoliad 6(2)(d), Rheoliadau (Etholfraint) Ewrop 2001.
[53] Rheoliad 24, RhCyB 2001.

ofynnol i unrhyw un arall ddarparu gwybodaeth am unrhyw agwedd ar gymhwyster rhywun i fod yn etholwr.[54]

Ystyrir y gallu i ofyn am dystiolaeth neu wybodaeth ymhellach yn Rhan D, 'Gwella cyflawnrwydd a chywirdeb'.

Dinasyddion deuol

6.7 Efallai y bydd gan rai ymgeiswyr fwy nag un cenedligrwydd. Os bydd Swyddog Cofrestru Etholiadol yn cael gwybodaeth gan ymgeisydd sy'n dangos bod ganddo ddau genedligrwydd neu fwy, dylid prosesu'r cais yn unol â'r cenedligrwydd sy'n darparu'r lefel uchaf o etholfraint; er enghraifft, dylid cofrestru cais sy'n datgan bod yr ymgeisydd yn ddinesydd Almaenig a Phrydeinig deuol fel dinesydd Prydeinig, gan mai hyn sy'n rhoi'r etholfraint ehangach iddo.

6.8 Lle y caiff ffurflen gofrestru ei dychwelyd gan breswylydd sy'n honni ei fod yn anghymwys i gofrestru (er enghraifft gan ddinesydd yn America), rhaid i'w gais gael ei wrthod a rhaid anfon hysbysiad o wrthodiad at yr ymgeisydd. Dylai'r hysbysiad hwn egluro bod y cais wedi methu'r cymhwyster cenedligrwydd a dylai egluro pa gamau y dylid eu cymryd pe bai hefyd yn meddu ar genedligrwydd cymwys. Os bydd ymgeisydd hefyd yn meddu ar genedligrwydd a fyddai'n caniatáu iddo gofrestru, gellir ei gofrestru mewn perthynas â'r cenedligrwydd hwnnw, ac mae'r ffaith na fyddai cenedligrwydd arall yn caniatáu iddo gofrestru yn amherthnasol.

Dinasyddion Prydeinig

6.9 Mae dinasyddion Prydeinig yn bodloni'r meini prawf cenedligrwydd ar gyfer cofrestru ym mhob etholiad yn y DU.

6.10 Nid yw bod yn briod â dinesydd Prydeinig yn rhoi dinasyddiaeth Brydeinig i ddinesydd tramor yn awtomatig.[55]

6.11 Nid yw cael eich geni yn y DU yn rhoi dinasyddiaeth Brydeinig yn awtomatig chwaith. Dim ond os bydd eu tad neu eu mam hefyd yn Brydeinig, neu os bydd y ddau riant yn ddinasyddion tramor, eu bod wedi ymgartrefu'n gyfreithiol yn y DU y bydd plant a anwyd ar ôl 1 Ionawr 1983 yn ddinasyddion Prydeinig.[56]

Seremonïau dinasyddiaeth

6.12 Seremonïau dinasyddiaeth yw cam terfynol y broses o gael dinasyddiaeth Brydeinig. Mae'r digwyddiadau hyn yn gyfleoedd da i sicrhau y caiff preswylwyr newydd eu cofrestru'n gywir. Efallai y bydd rhai preswylwyr

[54] Rheoliad 23, RhCyB 2001.
[55] Deddf Cenedligrwydd Prydeinig 1948.
[56] Adran 1, Deddf Cenedligrwydd Prydeinig 1981.

wedi'u cofrestru eisoes o ganlyniad i'w cenedligrwydd blaenorol ond efallai y bydd angen iddynt wneud cais i gofrestru ar gyfer etholiadau Senedd y DU os byddant ond wedi cofrestru ar gyfer etholiadau llywodraeth leol. Rhoddir dinasyddiaeth yn y seremoni ei hun felly nid yw gwahoddiad i seremoni ddinasyddiaeth yn brawf o ddinasyddiaeth ynddo'i hun.

6.13 Efallai y bydd Swyddogion Cofrestru Etholiadol am gysylltu â'r rheini sy'n gyfrifol am y seremonïau er mwyn sicrhau bod ffurflenni cofrestru treigl yn cael eu cynnwys yn y pecyn croeso a lunnir ar gyfer y dinasyddion newydd, ac efallai y byddant hefyd yn ceisio dod o hyd i gyfeiriadau'r dinasyddion Prydeinig newydd er mwyn sicrhau y caiff y ffurflenni cofrestru hyn eu cwblhau a'u dychwelyd. Yn ogystal, efallai y bydd Swyddogion Cofrestru Etholiadol am holi i weld a ellir cynnwys cyfeiriad at bwysigrwydd cofrestru i bleidleisio a chymryd rhan yn y broses ddemocrataidd yn yr araith a roddir yn y seremoni.

Dinasyddion y Gymanwlad

Hawl i bleidleisio

6.14 Mae hawl gan ddinasyddion cymwys yn y Gymanwlad gofrestru fel etholwyr Seneddol yn ogystal ag etholwyr llywodraeth leol ar yr amod eu bod hefyd yn bodloni'r gofynion o ran oed a chartref ar gyfer cofrestru ac nad ydynt yn destun unrhyw anallu cyfreithiol arall.[57]

Ystyr 'dinesydd cymwys yn y Gymanwlad'

6.15 Mae rhywun sy'n ddinesydd yn y Gymanwlad yn ddinesydd cymwys yn y Gymanwlad at ddibenion cofrestru os nad oes angen caniatâd arno i aros yn y, neu gael mynediad i'r DU neu os oes angen caniatâd arno i aros yn y, neu gael mynediad i'r DU ond ei fod wedi cael y cyfryw ganiatâd neu yr ystyrir ei fod wedi cael y cyfryw ganiatâd.[58]

6.16 Mae unrhyw fath o ganiatâd i aros neu gael mynediad yn dderbyniol, boed yn amhendant, â therfyn amser neu'n amodol.

6.17 Mae dinasyddion cymwys yn y gwledydd canlynol yn bodloni'r meini prawf cenedligrwydd i gofrestru ym mhob etholiad.

Rhestr o wledydd y Gymanwlad

Antigua a Barbuda	Jamaica	Seland Newydd
Awstralia	Kenya	Seychelles
Bangladesh	Kiribati	Sierra Leone
Barbados	Lesotho	Singapôr
Belîs	Malawi	Sri Lanka
Bodswana	Malaysia	Swaziland
Brunai Dariwsalam	Maldives	Tonga
Y Camerŵn	Malta*	Trinidad a Tobago

[57] Adran 4(1)(c), a (3)(c), DCyB 1983.
[58] Adran 4(6), DCyB 1983.

Canada
Cyprus*
De Affrica
Dominica
Y Gambia
Gweriniaeth Unedig
Tanzania
Ghana
Grenada
Guyana
India
Mauritius
Mozambique
Namibia
Nauru
Nigeria
Pacistan
Papua New Guinea
Rwanda
St Kitts a Nevis
St Lucia
St Vincent a'r Grenadines
Samoa
Tuvalu
Uganda
Vanuatu
Y Bahamas
Y Deyrnas Unedig
Ynysoedd Fiji
Ynysoedd Solomon
Zambia
Zimbabwe

*Er eu bod hefyd yn aelod-wladwriaethau o'r UE, mae dinasyddion yn Cyprus a Malta yn gymwys i gael eu cofrestru i bleidleisio mewn perthynas â phob etholiad a gynhelir yn y DU.

Noder: Mae dinasyddion y gwledydd uchod yn cadw eu hawliau pleidleisio hyd yn oed os yw eu gwlad wedi cael ei gwahardd neu ei hatal rhag bod yn aelod o'r Gymanwlad.

Pobl sy'n gwneud cais am loches

6.18 Nid oes gan y ffaith bod ymgeisydd neu etholwr wedi gwneud cais am loches unrhyw gysylltiad â'i hawl i gael ei gofrestru fel etholwr ac felly nid oes hawl gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol i ofyn am unrhyw dystiolaeth na gwybodaeth am loches. Dim ond holi ynghylch cenedligrwydd a ph'un a oes gan rywun unrhyw fath o ganiatâd i aros yn y, neu gael mynediad i'r DU y gall y Swyddog Cofrestru Etholiadol ei wneud.

Tiriogaethau Tramor Prydain

Rhestr o Diriogaethau Tramor Prydain

Anguilla
Bermuda
Canolfannau milwrol sofran ar ynys Cyprus
Dibynwledydd St Helena
(Ynys Ascension a Tristan da Cunha)
Gibraltar
Montserrat
St Helena
Tiriogaeth Antarctig Prydain
Tiriogaeth Brydeinig Cefnfor India
Ynysoedd De Georgia a De Sandwich
Ynysoedd Cayman
Ynysoedd Falkland
Ynys Pitcairn
Ynysoedd Prydeinig y Wyryf
Ynysoedd Turks a caicos

6.19 Mae dinasyddion Prydain (Dramor), dinasyddion Tramor Prydain a dinasyddion Tiriogaethau Dibynnol Prydain oll yn ddinasyddion yn y Gymanwlad ac mae hawl ganddynt gofrestru fel etholwyr ym mhob etholiad, ar yr amod eu bod hefyd yn bodloni'r gofynion o ran oed a chartref ar gyfer

cofrestru ac nad ydynt yn destun unrhyw anallu cyfreithiol arall.[59] Fodd bynnag, nid oes hawl gan y cyfryw ddinasyddion gofrestru fel etholwyr tramor.

6.20 Mae hawl gan ddinasyddion yn Gibraltar sy'n preswylio yn Gibraltar gofrestru i bleidleisio yn etholiadau Senedd Ewrop yn rhanbarth y De-orllewin. Caiff hyn ei weinyddu gan Swyddog Cofrestru Etholiadol Ewrop ar gyfer Gibraltar.[60]

Tiriogaethau Dibynnol Prydain

6.21 Mae Tiriogaethau Dibynnol Prydain yn cynnwys Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel yn cynnwys Jersey, Guernsey, Sark, Alderney, Herm ac Ynysoedd cyfannedd eraill y Sianel.

6.22 Ystyrir bod dinasyddion Tiriogaethau Dibynnol Prydain yn ddinasyddion yn y Gymanwlad at ddibenion cofrestru etholiadol ond dim ond cofrestru i bleidleisio yn etholiadau'r DU y gallant ei wneud pan fyddant yn preswylio yn y DU. Fel dinasyddion yn Nhiriogaethau Tramor Prydain, nid oes hawl gan ddinasyddion yn Nhiriogaethau Dibynnol Prydain gofrestru fel etholwyr tramor.

Hong Kong

6.23 Yn dilyn ei throsglwyddo i sofraniaeth Tsieina ar 1 Gorffennaf 1997, cafodd Hong Kong ei dileu o'r rhestr o Diriogaethau Tramor Prydain.[61] O ganlyniad, nid yw cyn breswylwyr Hong Kong yn ddinasyddion cymwys yn y Gymanwlad yn rhinwedd y ffaith eu bod yn preswylio yn Hong Kong am nad yw Tsineaid Hong Kong yn genedligrwydd mwyach.

6.24 Os bydd etholwr yn datgan mai Tsieinead Hong Kong yw ei genedligrwydd dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol arfer ei bwerau i ofyn am dystiolaeth o genedligrwydd gwirioneddol etholwr a chadarnhau'r math o basbort sydd ganddo.[62]

6.25 Mae unrhyw gyn breswylydd o Hong Kong sydd â phasbort Tiriogaethau Dibynnol Prydain, Dinasyddion Prydain (Dramor) neu Ddinasyddion Tramor Prydain yn bodloni'r meini prawf cenedligrwydd ar gyfer pob etholiad yn y DU.

6.26 Mae unrhyw gyn breswylydd o Hong Kong sydd ond â phasbort Rhanbarth Weinyddol Arbennig Tsieineaidd yn Tsieinead ac ni all gofrestru.

Dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd

Aelod-wladwriaeth o'r Undeb Ewropeaidd

Awstria	Gwlad Pŵyl	Slofacia
Bwlgaria	Hwngari	Slofenia
Cyprus*	Latfia	Sweden

[59] Deddf Cenedligrwydd Prydeinig 1981.
[60] Adrannau 14 i 17, Deddf Senedd Ewrop (Cynrychiolaeth) 2003.
[61] Atodlen 6, Deddf Cenedligrwydd Prydeinig 1981.
[62] Rheoliad 24, RhCyB 2001.

Denmarc	Lithiwania	Y Deyrnas Unedig
Estonia	Lwcsembwrg	Y Ffindir
Ffrainc	Malta*	Yr Almaen
Gweriniaeth Iwerddon*	Portiwgal	Yr Eidal
Gwlad Belg	Rwmania	Yr Iseldiroedd
Gwlad Groeg	Sbaen	Y Weriniaeth Tsiec

*Mae dinasyddion yn y DU, Gweriniaeth Iwerddon, Cyprus a Malta yn gymwys i gael eu cofrestru i bleidleisio mewn perthynas â phob etholiad a gynhelir yn y DU.

Cyprus, Malta a Gweriniaeth Iwerddon

6.27 Mae gan ddinasyddion yng Ngweriniaeth Iwerddon a'r Gymanwlad, yn cynnwys y rhai o Malta a Cyprus, yr un hawliau pleidleisio â dinasyddion ym Mhrydain. Ni yw aelodau o'r UE yn cael unrhyw effaith ar statws cofrestru etholiadol y dinasyddion hyn a gallant gofrestru i bleidleisio ym mhob un o etholiadau'r DU, gan dybio bod yr holl feini prawf cofrestru perthnasol eraill wedi'u bodloni. **Ni ddylai** fod gan ddinasyddion yng Ngweriniaeth Iwerddon, Cyprus a Malta y marc 'G' neu 'K' wrth eu henwau.

6.28 At ddibenion cofrestru, ystyrir bod Cyprus gyfan yn un o wledydd y Gymanwlad a dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ddiystyru'r sefyllfa wleidyddol sy'n ymwneud â rhannu'r ynys. Os bydd unrhyw amheuaeth o ran p'un a ddylid cofrestru rhywun o Cyprus, dylid gofyn iddo am gadarnhad o'r math o basbort sydd ganddo. Ar yr amod bod gan yr unigolyn basport naill ai o Weriniaeth Cyprus neu Weriniaeth Gogledd Cyprus, mae hawl ganddo gael ei gynnwys ar y gofrestr etholwyr fel dinesydd yn y Gymanwlad. Fodd bynnag, nid oes gan unrhyw un sy'n honni ei fod o Cyprus ond sydd â phasbort Tyrceg hawl i gofrestru.

Etholwyr llywodraeth leol

6.29 Mae gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol ddyletswydd i gofrestru pob dinesydd cymwys yn aelod-wladwriaethau'r UE sy'n preswylio ym Mhrydain Fawr fel etholwr llywodraeth leol. Dylai'r ffurflen ganfasio a'r ffurflenni cofrestru treigl gynnwys colofn yn gofyn am genedligrwydd pob ymgeisydd, a fydd yn golygu y gellir adnabod dinasyddion yn aelod-wladwriaethau'r UE.

6.30 Os bydd gan Swyddog Cofrestru Etholiadol unrhyw amheuon ynghylch cenedligrwydd ymgeisydd neu etholwr, efallai y bydd yn gofyn i'r unigolyn dan sylw gyflwyno tystiolaeth i ddangos ei fod yn ddinesydd yn un o aelod-wladwriaethau'r UE.[63] Os bydd unrhyw ffi yn daladwy mewn perthynas â chyflwyno'r cyfryw dystiolaeth sy'n ofynnol gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol, caiff y ffi honno ei thalu gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol a'i ystyried fel rhan o'r treuliau cofrestru a delir gan yr awdurdod lleol.[64]

[63] Rheoliad 24(1) a (2), RhCyB 2001.
[64] Rheoliad 24(3), RhCyB 2001.

6.31 Caiff dinasyddion yn aelod-wladwriaethau'r UE sydd wedi'u cofrestru fel etholwyr llywodraeth leol yn unig eu henwau wedi'u cynnwys ar y gofrestr wedi'u rhagddodi â'r llythyren 'G'.

Etholwyr Senedd Ewrop

6.32 Mae cofrestru fel etholwr Senedd Ewrop yn gwbl wirfoddol i ddinasyddion yn aelod-wladwriaethau'r UE (heb gynnwys y DU, Gweriniaeth Iwerddon, Cyprus a Malta). Nid oes gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol unrhyw ddyletswydd i olrhain y cyfryw ddinasyddion at y diben hwn. Fodd bynnag, gall dinasyddion yn yr UE wneud cais yn unigol i gofrestru fel etholwyr Senedd Ewrop bob blwyddyn.

6.33 Dim ond i gofrestru dinesydd yn un o aelod-wladwriaethau'r UE fel etholwr llywodraeth leol y gellir defnyddio'r ffurflen ganfasio flynyddol a'r ffurflenni cofrestru treigl. Rhaid i ddinasyddion yn aelod-wladwriaethau'r UE sydd am gofrestru fel etholwyr Senedd Ewrop gwblhau cais ar wahân wedi'i ategu gan ddatganiad, y mae'n rhaid iddo ddatgan mai dim ond yn y DU mewn unrhyw etholiad Senedd Ewrop y byddant yn pleidleisio yn ystod cyfnod 12 mis y datganiad.[65] Dim ond unwaith y gall dinasyddion yn yr UE bleidleisio a dim ond mewn un aelod-wladwriaeth mewn etholiad Senedd Ewrop, a byddai gwneud fel arall yn drosedd.[66]

6.34 Dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol roi'r ceisiadau a'r datganiadau hyn i bob etholwr llywodraeth leol sydd wedi nodi ar ei ffurflen ganfasio flynyddol, neu ar ei gais cofrestru treigl i gael ei gofrestru fel etholwr, ei fod yn ddinesydd yn un o aelod-wladwriaethau'r UE.[67] Gan fod etholiadau Senedd Ewrop yn etholiadau sydd wedi'u hamserlennu, gellir rhoi'r rhain naill ai yn ystod y broses ganfasio flynyddol neu yn syth ar ôl y canfasiad blynyddol sy'n rhagflaenu'r etholiad. Dylid ymdrin ag unrhyw geisiadau a datganiadau a ddychwelir yn yr un ffordd ag unrhyw ddatganiad arall a rhaid iddynt gyrraedd y terfynau amser cofrestru.

6.35 Bydd etholwyr sy'n dychwelyd datganiad wedi'i gwblhau yn cael eu henwau wedi'u cynnwys ar y gofrestr etholwyr wedi'u rhagddodi â'r llythyren 'K' yn hytrach na'r llythyren 'G'. Ni ddylid cynnwys y marc hwn ar gyfer dinasyddion yn y DU, Gweriniaeth Iwerddon, Malta neu Cyprus, am eu bod yn gymwys i bleidleisio ym mhob etholiad a gynhelir yn y DU, ac nid yw'n ofynnol iddynt ddychwelyd cais ar wahân a datganiad er mwyn cofrestru yn etholiadau Senedd Ewrop.

6.36 Os dychwelir y datganiad a phenderfynir arno mewn pryd, dylid adlewyrchu'r newid o 'G' i 'K' yn y diweddariad nesaf i'r gofrestr. Bydd hyn naill ai yn y gofrestr ddiwygiedig nesaf a gyhoeddir, yn yr hysbysiad misol o addasiad neu hysbysiad etholiad o addasiad. Mae'r newid hwn yn y dull marcio yn dangos bod yr unigolyn dan sylw wedi'i ychwanegu at y gofrestr o etholwyr Senedd Ewrop.

---

[65] Rheoliad 6, Rheoliadau (Etholfraint) Ewrop 2001.
[66] Adran 9, Deddf ESE 2002.
[67] Heb gynnwys dinasyddion yn y DU, Gweriniaeth Iwerddon, Malta a Cyprus.

6.37 Mae cais rhywun i gofrestru i bleidleisio fel etholwr yn etholiad Senedd Ewrop yn y DU yn parhau i fod yn effeithiol am gyfnod o 12 mis i'r dyddiad y daw'r cofnod ar y gofrestr i rym, neu hyd nes:[68]

- y bydd y dinesydd yn gwneud cais i ddileu ei enw o'r gofrestr etholwyr, neu
- gwneir cais arall gan y dinesydd mewn perthynas â chyfeiriad cymwys gwahanol, neu
- caiff y cais ei ganslo gan yr etholwr, y gellir ei wneud ar unrhyw adeg, neu
- ceir hysbysiad gan yr Ysgrifennydd Gwladol bod gwybodaeth wedi'i derbyn gan aelod-wladwriaeth yn nodi bod y dinesydd wedi colli ei hawl i bleidleisio

Gwybodaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol

6.38 Mae Cyfarwyddeb 93/109 yr UE wedi'i chynllunio i helpu i atal pleidleisio lluosog yn etholiadau Senedd Ewrop. Mae'n ofynnol i Swyddogion Cofrestru Etholiadol anfon gwybodaeth am ddinasyddion yn aelod-wladwriaethau'r UE sydd wedi'u cofrestru yn eu hardaloedd i wledydd eraill o'r UE, ac yn eu tro, dylent dderbyn gwybodaeth gan wledydd eraill o'r UE.

6.39 Caiff rhagor o wybodaeth a manylion cyswllt sy'n berthnasol i'r ymarfer hwn eu darparu i Swyddogion Cofrestru Etholiadol gan yr adran berthnasol o'r llywodraeth cyn etholiad Senedd Ewrop.

6.40 Rhaid i nifer y dinasyddion yn aelod-wladwriaethau'r UE sy'n cofrestru fel etholwyr Senedd Ewrop ac fel etholwyr llywodraeth leol gael eu cynnwys yn y ffurflen ystadegol flynyddol ar ffurflen RPF29.

[68] Rheoliad 10, Rheoliadau (Etholfraint) Ewrop 2001.

7 Aelodau o Dŷ'r Arglwyddi

7.1 Mae Arglwyddi sy'n Aelodau o Dŷ'r Arglwyddi wedi'u hanghymhwyso rhag pleidleisio yn etholiadau Senedd y DU. Serch hynny, gallant bleidleisio yn etholiadau Senedd Ewrop ac etholiadau llywodraeth leol, ac mewn refferenda cenedlaethol a lleol.

7.2 Yn dilyn deddfu Deddf Tŷ'r Arglwyddi 1999, yr unig arglwyddi sydd wedi'u hanghymhwyso rhag pleidleisio yn etholiadau Senedd y DU yw arglwyddi oes a'r 92 o arglwyddi etifeddol sy'n parhau i eistedd yn Nhŷ'r Arglwyddi.

Adnabod Aelodau o Dŷ'r Arglwyddi

7.3 Gallai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ei chael hi'n anodd nodi'r rhai sy'n arglwyddi a'r rhai sy'n Aelodau o Dŷ'r Arglwyddi. Gellir cael y wybodaeth hon, ynghyd â rhestr lawn o Aelodau o Dŷ'r Arglwyddi, ar wefan Tŷ'r Arglwyddi yn www.parliament.uk/about_lords/about_lords.cfm. Fel arall, gall Swyddog Gwybodaeth Tŷ'r Arglwyddi helpu gydag ymholiadau, a gellir cysylltu ag ef drwy ffonio 020 7219 3107.

Cofrestru

7.4 Dylid cynnwys enwau Aelodau o Dŷ'r Arglwyddi ar y gofrestr etholwyr gyda'r llythyren 'L' wedi'i rhagddodi wrth eu henwau i nodi nad ydynt yn gymwys i bleidleisio yn etholiadau Senedd y DU.

7.5 Lle cafwyd gwybodaeth bod rhywun sydd wedi'i gofrestru fel etholwr cyffredin ar hyn o bryd wedi dod yn Aelod o Dŷ'r Arglwyddi, dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol, lle y bydd yn fodlon ar ôl gwneud ymholiadau, ddiwygio'r cofnod ar y gofrestr drwy'r weithdrefn addasu fisol i nodi'r newid yng nghymhwyster yr etholwr hwnnw.

7.6 Rhaid bod gan Aelodau o Dŷ'r Arglwyddi sy'n cofrestru fel etholwyr tramor y llythyren 'E' wedi'i rhagddodi wrth eu henw ar y gofrestr etholwyr yn hytrach na'r llythyren 'L', i nodi eu bod ond yn gymwys i bleidleisio yn etholiadau Senedd Ewrop yn unig.

8 Oedran

Atendriadau

8.1 Rhaid nodi etholwr nad yw'n 18 oed eto ar y gofrestr gyda'r dyddiad y bydd yn cael ei ben-blwydd yn 18 oed. Gelwir yr etholwyr hynny sy'n ymddangos ar y gofrestr mewn achos o'r fath yn atendriadau gan eu bod ar fin cyrraedd oedran pleidleisio.

8.2 Rhaid cynnwys manylion pob atendriad hysbys ar unrhyw ffurflen ganfasio a anfonir i gartref. Rhaid darparu dyddiad geni pob person ifanc 16 ac 17 mlwydd oed ar y ffurflen ganfasio flynyddol. Er na fydd pob person ifanc 16 mlwydd oed yn gymwys i gofrestru, bydd rhoi'r wybodaeth hon yn caniatáu i Swyddogion Cofrestru Etholiadol benderfynu pwy sy'n gymwys i gofrestru a phwy nad yw'n gymwys.

8.3 Bydd unrhyw un a anwyd ar 29 Chwefror mewn blwyddyn naid yn cyrraedd 18 oed ar 1 Mawrth mewn blwyddyn nad yw'n flwyddyn naid.

8.4 Yr isafswm oedran pleidleisio yw 18 oed a bydd hawl gan unrhyw un sy'n cyrraedd 18 oed ar ddiwrnod yr etholiad neu cyn hynny bleidleisio yn yr etholiad hwnnw os cânt eu cynnwys ar y gofrestr etholwyr berthnasol ac nad ydynt yn destun unrhyw anallu cyfreithiol i bleidleisio. Gellir cynnwys rhywun ar y gofrestr cyn ei ben-blwydd yn 18 oed fel y gall bleidleisio cyn gynted ag y bydd yn cyrraedd 18 oed. Gellir derbyn ceisiadau os bydd yr ymgeisydd yn 18 oed cyn diwedd y cyfnod 12 mis sy'n dechrau o 1 Rhagfyr nesaf ar ôl gwneud y cais.

8.5 Er enghraifft, os gwneir cais i gofrestru yn yr haf gan rywun nad yw'n 18 oed eto, bydd yr ymgeisydd yn cyrraedd y cymhwyster oedran os bydd yn 18 oed o fewn cyfnod o 12 mis yn dechrau o 1 Rhagfyr y flwyddyn honno. Bydd rhywun sy'n gwneud cais ym mis Rhagfyr yn cyrraedd y cymhwyster os bydd yn 18 oed o fewn 12 mis i 1 Rhagfyr y flwyddyn nesaf - bron ddwy flynedd i ffwrdd.

Gwasanaeth rheithgor a phobl dros 70 oed

8.6 Yng Nghymru a Lloegr, rhaid i bob etholwr dros 70 oed nodi'r ffaith hon ar y ffurflen ganfasio flynyddol neu ffurflenni cofrestru treigl y byddant yn eu defnyddio i wneud cais i gofrestru. Rhaid i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ddarparu copi llawn o'r gofrestr etholwyr, yn cynnwys syniad o'r etholwyr hynny sydd dros 70 oed ac felly nad ydynt yn gymwys i wneud gwasanaeth rheithgor, i swyddog sydd wedi'i benodi i alw rheithgorau.[69] Mae'r manylion cyswllt perthnasol ar gyfer hyn wedi'u cynnwys yn Rhan F, 'Gweld y gofrestr a'i darparu'.

[69] Adran 3, Deddf Rheithgorau 1974.

Nid oes gofyniad i Swyddogion Cofrestru Etholiadol yr Alban ofyn i etholwyr a ydynt dros 70 oed. Er bod hawl gan Wasanaeth Llysoedd yr Alban brynu copi o'r gofrestr lawn o etholwyr o dan Reoliad 112 o RhCyB (yr Alban) 2001, ni nodir etholwyr dros 70 oed.

Darparu rhestrau rheithgor i eraill

8.7 Ni all unrhyw sefydliad na chorff nad yw'n galw rheithgorau gael y gofrestr sy'n cynnwys marc i ddangos yr etholwyr hynny sydd dros 70 mlwydd oed. Ni ddylid rhoi'r rhestr rheithgor i bleidiau, ymgeiswyr a derbynyddion cofrestrau etholiadol eraill .